# SWYDD-DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | **Rheolwr Prosiectau – Ynni Cymru** |
| **Yn Atebol i** | Y Cyfarwyddwr – Ynni Cymru |
| **Lleoliad** | Rôl Gogledd Cymru / hybrid (wedi'i rhannu rhwng gweithio gartref a swyddfeydd M-SParc, Gogledd Cymru) |
| **Cyflog** | Lefel 1: O £40,000 y flwyddyn<br>Lefel 2: O £44,000 y flwyddyn<br>Lefel 3: O £48,000 y flwyddyn |
| **Math o gyflogaeth** | Parhaol |
| **Oriau Wythnosol** | 35 (llawn-amser) |

Mae Ynni Cymru yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a fydd yn helpu i lunio dyfodol y system ynni yng Nghymru. Yn eich gwaith o ddydd i ddydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ehangu'r defnydd o ynni adnewyddadwy a datblygiad Systemau Ynni Lleol Clyfar, byddwch yn rhan o dîm bach, cyfeillgar a dynamig sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflawni prosiectau ledled Cymru.

Er bod y rôl wedi'i lleoli gartref yn bennaf, **rhaid i'r ymgeiswyr fyw o fewn pellter cymudo i swyddfeydd M-SParc yng Ngogledd Cymru** gan y bydd yn ofynnol gweithio (wythnosol) wyneb yn wyneb â chleientiaid lleoliad yn Gogledd Cymru yn rheolaidd. Disgwylir i chi hefyd deithio i safleoedd ledled draws Cymru, Llundain neu ganolfannau rhanbarthol.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg.

## DIBEN Y SWYDD

Mae rheolwyr prosiectau yn gyfrifol am gefnogi'r gwaith o reoli prosiectau o ddydd i ddydd, gan gynnwys llywio'r prosiect a goruchwylio'r broses o'i gyflawni, a sicrhau bod yr amcanion wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu cyflawni yn unol â'r amser, y costau a'r cyfyngiadau ansawdd y cytunwyd arnynt.

Mae gan Reolwyr Prosiectau hefyd rôl allweddol o ran llywodraethu prosiectau a gweithio gyda rhanddeiliaid, a hynny er mwyn sicrhau bod allbynnau cytunedig y prosiect yn cael eu cyflawni i alluogi i fuddion gael eu rhyddhau. Mae hyn yn golygu cyfathrebu effeithiol, a blaenoriaethu a rheoli gweithgareddau a disgwyliadau.

Mae angen i Reolwyr Prosiectau ddeall y broses gwneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys rôl gwleidyddion etholedig, yn ychwanegol at eu harbenigedd proffesiynol. Mae bron pob aseiniad yn cynnwys paratoi adroddiadau ac ynddynt wybodaeth ysgrifenedig a dadansoddol gymhleth ar gyfer y cleient, felly mae sgiliau cyfathrebu rhagorol yn hanfodol. Mae trosglwyddo gwybodaeth i'r cleient yn rhan allweddol o'r rôl.

Bydd y rôl hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi deithio'n rheolaidd (wythnosol) i swyddfa Ynni Cymru yn M-SParc (Gogledd Cymru) a theithio'n achlysurol i swyddfeydd Partneriaethau Lleol (Caerdydd neu Lundain), i gyfarfodydd â chleientiaid, neu i ganolfannau rhanbarthol. Bydd trwydded yrru a mynediad at eich cludiant eich hun yn hanfodol.

Gall Reolwyr Prosiectau gael eu dyrannu i brosiectau ar draws unrhyw rai o feysydd rhaglenni Partneriaethau Lleol, sef y timau mewnol sy'n cyflawni amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni sy'n ymwneud â chleientiaid.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

Gan weithio'n annibynnol yn rhan o'r tîm prosiectau ehangach, mae'r rôl yn cynnwys y gweithgareddau allweddol canlynol:

- Cymorth o ddydd i ddydd ar gyfer y rhaglen, amryw o brosiectau a thîm y prosiect, pennu rheolaethau a chynllunio'r strwythur yn unol â'r cam a'r cynnydd, a defnyddio'r fethodoleg cyflawni fwyaf priodol.
- Rheoli, olrhain a chofnodi pryd y cyflawnir cerrig milltir a rheolaethau allweddol, yn cynnwys cyllidebau, y gofrestr risgiau, adnoddau, buddion, risgiau, dibyniaethau ac ansawdd. Creu a chynnal cynlluniau prosiect a mecanweithiau llywodraethu.
- Hwyluso gweithdai/timau arwain a galwadau gan gleientiaid; yn cynnwys paratoi cyn cyfarfodydd; cynnal y digwyddiad; darparu allbwn/nodiadau yn dilyn cyfarfodydd.
- Cefnogi neu bennu trefniadau sicrwydd priodol ar gyfer prosiectau, a sicrhau bod prosesau rheoli newid effeithiol ar waith i gytuno â hynny, ynghyd â newidiadau i ddogfennau'n ymwneud â'r hyn a ddarperir fel y cytunwyd arnynt â'r rhanddeiliaid.
- Cyflawni canlyniadau prosiectau yn unol â'r briff ar gyfer yr aseiniad i fodloni safonau ansawdd Partneriaethau Lleol, disgwyliadau'r cleientiaid, a thargedau ariannol.
- Nodi ac ymgysylltu â chleientiaid a chyd-weithwyr, a meithrin perthnasoedd effeithiol â nhw, gan sefydlu enw da o ran bod yn ffynhonnell arbenigedd o fewn maes rhaglen a chydweithio â rhaglenni eraill Partneriaethau Lleol.
- Gofyn am adborth gan gleientiaid a nodi cyfleoedd i hyrwyddo datblygiadau yn y dyfodol ar gyfer maes y rhaglen a Partneriaethau Lleol.
- Ymrwymo i ddatblygiad personol parhaus a chyfrannu at berfformiad effeithiol gan unigolion a'r tîm.

## MANYLEB Y PERSON

- Wedi eich addysgu hyd at lefel gradd neu safon gyfatebol yn y diwydiant
- Cymwysterau proffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl, megis Cymhwyster Ymarferydd Rheoli Prosiectau Agile, Ymarferydd PRINCE2 neu Reoli Prosiectau APM
- Y gallu i amldasgio'n gyson a blaenoriaethu'r llwyth gwaith yn ôl gofyn y prosiect/cleient
- Sgiliau masnachol cryf a hanes blaenorol o weithredu mewn amgylchedd contractio
- Dealltwriaeth gadarn o sector cyhoeddus y DU a/neu'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar y gymuned
- Profiad profedig o weithio ar brosiectau, ynghyd â hanes blaenorol o'u cyflawni mewn modd effeithiol
- Profiad mewn rôl sy'n ymwneud â'r cleient a dealltwriaeth o'r ymddygiad priodol mewn perthynas â chleientiaid
- Sgiliau ysgrifenedig a llafar cadarn, ynghyd â sgiliau cadarn o ran dadansoddi a chyflwyno data
- Profiad o feithrin perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid uwch
- Profiad o reoli timau prosiectau o amrywiol gefndiroedd a phroffesiynau
- Y gallu i addasu a bod yn hyblyg i weithio mewn meysydd prosiectau gwahanol

- Bydd y rôl yn ei gwneud yn ofynnol i chi deithio, yn bennaf ledled Cymru, gan ymweld yn achlysurol â lleoliadau eraill yn y DU yn ôl yr angen.
- Mae sgiliau iaith Gymraeg yn dymunol.
- Bydd teithio helaeth ledled Cymru yn ofynnol.
- Trwydded yrrwr y DU
- Empathi gyda'r iaith a diwylliant Cymraeg.